



*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate  
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Gynradd Reoledig San Siôr  
Primrose Hill  
San Siôr  
Abergele  
Conwy  
LL22 9BU**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/06/2012

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Reoledig San Siôr ym mhentref bach San Siôr, tua thair milltir o Abergele. Mae disgyblion yn mynychu o ardal eang, yn cynnwys y pentref lleol a'r ardaloedd cyfagos. Mae llawer o ddisgyblion yn byw y tu allan i ddalgylch traddodiadol yr ysgol.

Mae 72 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol ar hyn o bryd, a 12 ohonynt yn mynychu'r dosbarth meithrin yn rhan-amser. Mae niferoedd wedi aros yn sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r ysgol wedi'i threfnu yn dri dosbarth oedran cymysg. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel mamiaith nac yn cael cymorth ar gyfer Saesneg fel iaith ychwanegol. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn dod o gymuned ethnig leiafrifol.

Mae disgyblion yn dod o gefndir cymdeithasol nad yw'n ffyniannus na than anfantais yn gymdeithasol ychwaith. Mae gan bedwar y cant o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, sydd gryn dipyn yn is na chyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru gyfan. Nodwyd bod gan un deg wyth y cant o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd ymhell uwchlaw cyfartaledd yr awdurdod lleol hefyd. Nid oes gan unrhyw ddisgybl ddatganiad o angen addysgol arbennig. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn cael gofal gan yr awdurdod lleol.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er Medi 2010. Adeg yr arolygiad, roedd tri aelod o staff ar gyfnod mamolaeth ac roedd y pennaeth yn absennol oherwydd salwch. Gan nad oedd unrhyw aelodau o staff sydd â chyfrifoldeb arwain yn gweithio yn yr ysgol ar hyn o bryd, trefnodd yr awdurdod lleol i aelod o staff o ysgol arall ymgymryd â rôl pennaeth dros dro. Mae'r pennaeth dros dro wedi bod yn yr ysgol er Ionawr 2012.

Nid oes neuadd yn yr ysgol ar hyn o bryd, a nodwyd bod hyn yn rhan o raglen foderneiddio'r awdurdod lleol.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Reoledig San Siôr yn 2011-2012 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,754 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yng Nghonwy yw £13,941 a'r isafswm yw £2,935. Mae Ysgol Gynradd Reoledig San Siôr yn safle 35 o'r 61 o ysgolion cynradd yng Nghonwy o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol yr ysgol</b>	<b>Digonol</b>
<b>Rhagolygon gwella'r ysgol</b>	<b>Digonol</b>

### Perfformiad presennol

Y farn gyffredinol ar berfformiad yr ysgol yw ei bod yn ddigonol. Dyma gryfderau'r ysgol:

- mae mwyafrif y disgyblion yn cyflawni safonau da mewn llawer o agweddau ar eu gwaith;
- mae disgyblion yn ymddwyn yn dda, yn uniaethu'n dda â phobl eraill ac yn awyddus i ddysgu;
- mae ethos gofalgwr yn yr ysgol, ac mae pob un o'r staff yn rhoi cymorth ac arweiniad da i ddisgyblion; a
- rhoddir cymorth effeithiol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Fodd bynnag:

- nid yw disgyblion mwy abl yn cyflawni'r safonau y gallant eu cyflawni;
- yn aml, nid yw'r addysgu'n cynnig digon o her i ddisgyblion;
- ni ddefnyddir dull cyson wrth gynllunio ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm; ac
- ni ddefnyddir gwybodaeth am asesu'n ddigon da i lywio cynllunio yn y dyfodol.

### Rhagolygon gwella

Y farn gyffredinol ar gyfer rhagolygon gwella yw eu bod yn ddigonol. Dyma gryfderau'r ysgol:

- mae'r pennaeth dros dro yn darparu arweinyddiaeth dda ar gyfer yr ysgol, ac fe'i cefnogir yn dda gan bob un o'r staff;
- mae llywodraethwyr yn ymgymryd â'u rolau a'u cyfrifoldebau yn effeithiol;
- mae'r camau a gymerwyd o ganlyniad i gynllunio ar gyfer gwella'r ysgol wedi arwain at godi safonau mewn darllen a Chymraeg; ac
- mae'r ysgol wedi meithrin partneriaethau da gyda rhieni.

Fodd bynnag:

- nid oes system drylwyr ar waith ar gyfer monitro addysgu a dysgu, ac nid yw'r adroddiad hunanarfarnu yn nodi'n glir yr holl feysydd y mae angen eu gwella o ganlyniad;
- nid yw'r broses hunanarfarnu wedi cael ei defnyddio i lywio'r cynllun gwella ysgol; ac
- mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cyfyngedig wrth fynd i'r afael â rhai o'r argymhellion o'r arolygiad diwethaf.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

- A1 godi safonau mewn ysgrifennu estynedig a dychmygus;
- A2 gwella'r safonau a'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl;
- A3 gwella cysondeb ac ansawdd y cynllunio a'r addysgu;
- A4 gwneud defnydd effeithiol o wybodaeth am asesu; a
- A5 sicrhau bod y broses hunanarfarnu wedi'i seilio ar system fonitro drylwyr ac yn cryfhau'r cyswllt rhwng deilliannau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella.

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd Ysgol Gynradd San Siôr yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

### Digonol

#### Safonau: Digonol

Mae medrau'r mwyafrif o ddisgyblion uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer yr awdurdod lleol a Chymru pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd da. Fodd bynnag, nid yw disgyblion mwy abl yn cyflawni'r safonau y gallant eu cyflawni, ac nid oes digon o ddisgyblion yn cyflawni'r lefel uwch mewn Saesneg ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol.

Mae medrau cyfathrebu disgyblion yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol ar y cyfan. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn siaradwyr hyderus. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, maent yn datblygu'r gallu i wrando'n ofalus ac yn astud ar staff ac ar ei gilydd. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron pob un o'r disgyblion yn siarad yn glir ac yn hyderus. Mae llawer ohonynt yn rhoi atebion ystyriol sy'n aml yn estynedig, gan ddefnyddio termau a geirfa addas.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn siarad yn frwdfrydig am lyfrau a'u hoff storiâu. Maent yn trin llyfrau fel darlennydd ac mae'r disgyblion mwy abl yn darllen testunau syml yn gywir. Ar y cyfan, gwnânt ddefnydd da o'u gwybodaeth am seiniau i'w helpu i ddarllen geiriau nad ydynt yn gyfarwydd â nhw. Mae llawer o ddisgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn defnyddio ystod briodol o strategaethau darllen ac yn darllen gyda rhuglder a mynegiant, gan roi sylw i atalnodi. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn defnyddio eu medrau darllen yn ddigon da i ymdrin â meysydd eraill o'r cwricwlwm.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n dda. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ffurfio eu llythrennau'n gywir, yn defnyddio atalnodi syml yn briodol ac yn sillafu geiriau syml yn gywir. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion mwy abl yn ysgrifennu'n ddigon da yn estynedig ac mae eu dealltwriaeth o sut i wella eu gwaith ysgrifenedig yn gyfyngedig.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau ysgrifennu, ac erbyn Blwyddyn 6, mae eu gwaith wedi'i gyflwyno'n dda gyda safonau da yn cael eu cyflawni mewn llawysgrifen a sillafu. Mae gan fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth dda o amseroedd a chonfensiynau gramadeg. Maent yn ysgrifennu gyda rhuglder a chywirdeb cynyddol, gan drefnu a chyflwyno eu hysgrifennu mewn gwahanol ffyrdd. Fodd bynnag, mae'r defnydd a wnânt o ddrafftio er mwyn gwella eu gwaith yn gyfyngedig ac nid ydynt yn gwneud defnydd digonol o'u medrau i gwblhau darnau o waith ysgrifenedig estynedig neu ddychmygus.

Mewn mathemateg, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau rhifedd ond nid yw gallu llawer o ddisgyblion, yn enwedig y rhai mwy abl, i ddatrys problemau a gwneud gwaith ymchwiliol, wedi'i ddatblygu digon. Gwnânt ddefnydd cyfyngedig iawn o'u medrau rhifedd i gefnogi eu gwaith mewn meysydd dysgu eraill.

Mae disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda yn erbyn y targedau yn eu cynlluniau addysg unigol. Mae bechgyn a merched yn cyflawni'r un mor dda o gymharu â'u mannau cychwyn.

Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau siarad a gwrando yn Gymraeg. Gall y rhan fwyaf o ddisgyblion ddilyn ystod o gyfarwyddiadau ac ymateb yn briodol i gwestiynau. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus i gyfleu gwybodaeth bersonol a chyflawni safonau da wrth ysgrifennu yn Gymraeg. Mae disgyblion hŷn yn darllen yn hyderus yn Gymraeg gydag atalnodi a dealltwriaeth dda.

Caiff y carfannau bach mewn rhai grwpiau blwyddyn effaith sylweddol ar y data. Mae canlyniadau yn y ddau gyfnod allweddol wedi amrywio dros y pedair blynedd diwethaf. Mae canlyniadau cyfnod allweddol 1 wedi bod islaw cyfartaledd y teulu o ysgolion am dair o'r pedair blynedd diwethaf. Ar lefel 2 ac yn uwch, mae canlyniadau mewn gwyddoniaeth wedi bod ychydig islaw'r perfformiad mewn Saesneg a mathemateg. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel 3 uwch mewn Saesneg wedi bod ychydig islaw'r canlyniadau mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 4 ac yn uwch yn cymharu'n ffafriol â chanran y teulu ym mhob pwnc. Mae nifer y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel 5 sy'n uwch na'r disgwyl yn well mewn mathemateg a gwyddoniaeth nag ydyw mewn Saesneg. Pan gaiff y targedau cyrhaeddiad ar wahân ar gyfer Saesneg eu cymharu â chyfartaledd y grŵp teulu, mae canlyniadau cyfnod allweddol 1 ar lefel 2 ac yn uwch wedi bod yn is bron bob amser, ac mae canlyniadau cyfnod allweddol 2 ar lefel 4 wedi bod yn uwch bron bob amser.

### **Lles: Da**

Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus yn yr ysgol. Mae'n amlwg fod disgyblion yn mwynhau'r ysgol ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol iawn at ddysgu. Mae eu hymddygiad yn dda bron bob amser, ac yn eithriadol o dda ar adegau. Mae pob disgybl yn dangos cwrteisi a pharch at ei gilydd, ac at staff ac ymwelwyr.

Wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, maent yn datblygu medrau cymdeithasol a bywyd da. Mae disgyblion yn cymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu gweithredoedd eu hunain, ac mae disgyblion hŷn yn gefnogol iawn o'r disgyblion iau. Caiff pob disgybl ei gynnwys yn weithredol mewn chwarae rhan yng nghymuned yr ysgol.

Caiff medrau gwneud penderfyniadau disgyblion eu datblygu'n briodol. Mae aelodau o'r cyngor ysgol, er enghraifft, yn penderfynu sut i wario arian a godwyd o ganlyniad i'w hymdrechion codi arian. Mae disgyblion yn cytuno i reolau'r dosbarth ac fe gânt gyfrannu at yr hyn y maent am ei ddysgu. Mae disgyblion yn teimlo'n rhan o'r gymuned trwy eu cysylltiadau â'r eglwys a'u cysylltiad gyda gweithgareddau eraill yn y pentref. Maent wedi'u paratoi'n dda ar gyfer bywyd a gwaith y tu allan i'r ysgol.

Mae'r holl ddisgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd ffyrdd iach o fyw. Mae ganddynt agwedd gadarnhaol tuag at fwyta'n iach a gwneud ymarfer corff.

Mae presenoldeb dros y tair blynedd diwethaf wedi aros o gwmpas 94%. Mae hyn yn agos at y lefel gyfartalog o gymharu â phresenoldeb mewn ysgolion tebyg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd yn brydlon ar ddechrau'r diwrnod ysgol.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>
--

<b>Digonol</b>
----------------

### **Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu sy'n bodloni anghenion mwyafrif y disgyblion. Mae cwricwlwm eang a chytbwys ar gael i ddisgyblion, er nad yw'r profiadau dysgu'n ddigon diddorol mewn rhai dosbarthiadau, ac nid ydynt yn herio disgyblion i gyflawni safonau uchel.

Mae cynllunio'r athrawon yn fanwl ac yn ymdrin â phob agwedd ar y cwricwlwm, ond nid oes cysondeb na dull ysgol gyfan. Nid yw cyfeiriad priodol at gynllunio ar gyfer grwpiau o ddisgyblion wedi'i ddatblygu digon, ac mae hyn yn arafu'r cynnydd a wna disgyblion, yn enwedig y rhai mwy abl. Megis dechrau addasu'r cwricwlwm i ddarparu ar gyfer dosbarthiadau lle mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn gweithio gyda'i gilydd y mae'r ysgol.

Caiff profiadau disgyblion eu cyfoethogi trwy gyfuniad da o waith ar y safle ac oddi ar y safle, yn cynnwys ymweliadau amrywiol, clybiau, digwyddiadau arbennig a gweithgareddau allgyrsiol.

Mae'r cynllunio i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws y cwricwlwm yn dda ar y cyfan. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd neu ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm yn gyfyngedig.

Mae'r ysgol yn cynllunio'r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig yn dda. Caiff yr iaith Gymraeg ei hyrwyddo'n greadigol trwy waith testun. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion gronfa dda o eirfa berthnasol a gallant wneud cysylltiadau â meysydd eraill y cwricwlwm. Rhoddir cyfleoedd da i ddisgyblion ddysgu am eu hardal a hanes a diwylliant Cymru trwy ymweliadau addysgol.

Mae darpariaeth gref ar gyfer addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy, ond nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang wedi'i datblygu cystal.

### **Addysgu: Digonol**

Mae ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol yn rhy amrywiol. Fodd bynnag, mae enghreifftiau o waith effeithiol, yn enwedig tuag at ddiwedd cyfnod allweddol 2. Mae gan bob athro wybodaeth bynciol dda ac maent yn sefydlu perthnasoedd gweithio da gyda disgyblion.

Pan mae'r addysgu'n dda, mae athrawon yn rhannu amcanion gwersi a meini prawf llwyddiant gyda disgyblion ar ddechrau gwersi. Maent yn defnyddio ystod effeithiol o ddulliau addysgu i ennyn diddordeb disgyblion, mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonynt ac yn darparu ar gyfer anghenion pob grŵp o ddisgyblion. Fodd bynnag, ni chaiff y strategaethau hyn eu defnyddio'n gyson ym mhob dosbarth. Mae gormod o wersi nad ydynt yn heriol, ac nid oes disgwyliadau digon uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni. Mae hyn yn arafu rhediad y dysgu a'r cynnydd a wna disgyblion, yn enwedig y rhai mwy abl.



Mae athrawon a staff cymorth yn gweithio gyda'i gilydd yn dda ym mhob dosbarth. Mae cynorthwyrwyr addysgu yn cefnogi unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Caiff y gwaith ei gynllunio'n effeithiol, ac mae'n cyfrannu'n sylweddol at ddysgu'r disgyblion.

Mae gweithdrefnau asesu'r ysgol yn ddigonol. Mae athrawon yn cadw cofnodion clir a systematig o gynnydd disgyblion, er na chaiff y cofnodion hyn eu defnyddio'n ddigon effeithiol i gynllunio ar gyfer dysgu yn y dyfodol. Rhoddir adborth addas mewn gwersi i helpu disgyblion i wneud cynnydd. Mae'r drefn o farcio gwaith disgyblion yn anghyson ac nid yw disgyblion bob amser yn gwybod beth mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Defnyddir strategaethau asesu ar gyfer dysgu mewn mwyafrif o ddosbarthiadau, ond mae eu heffaith yn amrywiol ar draws yr ysgol. Megis dechrau cael ei ddatblygu y mae'r arfer o osod targedau ar gyfer disgyblion unigol. Er bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol o'u targedau llythrennedd, nid ydynt yn siŵr sut i'w cyflawni.

Mae adroddiadau i rieni yn glir ac yn llawn gwybodaeth. Mae rhieni'n teimlo eu bod yn cael eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plant.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu lefel uchel o ofal, cymorth ac arweiniad ar gyfer ei disgyblion. Mae disgyblion a rhieni'n gwerthfawrogi amgylchedd diogel a gofalgar yr ysgol. Mae trefniadau da yn eu lle i gefnogi lles disgyblion a ffyrdd iach o fyw. Mae disgyblion yn dysgu sut i gadw'n ddiogel, ac mae strategaethau effeithiol i annog ymddygiad da.

Rhoddir cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu yn ysbrydol, yn foesol, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol. Mae'r ysgol yn annog y disgyblion i weithio'n dda gyda'i gilydd a dangos parch, gofal a phryder am bobl eraill. Mae trefniadau cyswllt yr ysgol gydag ystod o wasanaethau allanol a chymorth yn dda ac yn golygu bod gwybodaeth ac arweiniad ar gael i ddisgyblion a rhieni.

Mae ethos gofalgar yr ysgol yn sicrhau bod disgyblion ag anghenion ychwanegol yn cael eu nodi'n gynnar. Gwneir defnydd da o gymorth gan ystod eang o asiantaethau arbenigol allanol, fel y gwasanaeth seicoleg addysg, i nodi a bodloni anghenion disgyblion. Mae pob un o'r staff addysgu a chymorth yn chwarae rôl weithredol wrth gefnogi'r disgyblion hyn. Bodlonir eu hanghenion trwy ystod dda o raglenni. Defnyddir gweithdrefnau olrhain yn dda i dargedu cymorth ychwanegol a monitro'i effaith. Mae ansawdd cynlluniau addysg unigol yn dda ac fe gânt eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r ysgol yn hysbysu rhieni yn llawn ac yn eu hannog i gymryd rhan.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol ar gyfer diogelu, ond nid yw ychydig iawn o weithdrefnau ar gyfer delio â diogelu wedi cael eu datblygu'n llawn.

### **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol wedi sefydlu amgylchedd gofalgar, croesawgar a threfnus lle caiff pob plentyn ei werthfawrogi. Mae'r ysgol yn gwbl gynhwysol ac yn trin pob disgybl yn gyfartal. Rhoddir pwyslais clir ar adnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Caiff pob disgybl y cyfle i fanteisio ar ystod lawn darpariaeth yr ysgol. Mae gweithdrefnau effeithiol ar waith i ddelio ag unrhyw achosion o fwlio.

Mae cyflenwad da o adnoddau sy'n cael eu gweddu'n dda i anghenion disgyblion. Mae'r ysgol wedi buddsoddi mewn adnoddau darllen newydd yn ddiweddar, ac mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau disgyblion at ddarllen.

Mae'r adeiladau'n ddigonol ac yn cael eu cynnal yn dda, ond mae diffygion ynddynt am nad oes neuadd ysgol. Caiff hyn effaith ar y cyfleoedd i ddisgyblion hŷn gael gwersi rheolaidd mewn addysg gorfforol. Mae'r amgylchedd dysgu awyr agored yn rhoi cyfleoedd da i wella dysgu'r disgyblion, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Digonol</b>
--	----------------

### **Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r pennaeth dros dro yn cynnig arweinyddiaeth gadarnhaol ac mae ganddi ddealltwriaeth dda o anghenion yr ysgol. Caiff ei chefnogi'n dda gan bob un o'r staff a'r llywodraethwyr. Caiff disgyblion a staff eu gwerthfawrogi am eu cyfraniadau at fywyd yr ysgol. Nid oes gan yr ysgol uwch dîm arweinyddiaeth ar hyn o bryd, ond mae gan bob un o'r staff addysgu gyfrifoldebau penodol i ddatblygu'r ysgol fel cymuned ddysgu. Caiff eu gwaith effaith dda ar ethos yr ysgol. Mae cyfarfodydd staff wedi'u trefnu'n dda ac yn canolbwyntio'n briodol ar flaenoriaethau yn y cynllun gwella ysgol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau i reoli perfformiad y staff addysgu. Fodd bynnag, nid oes system drylwyr ar waith i fonitro'r addysgu a'r dysgu a dim system ffurfiol i werthuso perfformiad staff cymorth. Nid yw'r defnydd o ddata i fonitro perfformiad a gwella deilliannau ar gyfer disgyblion wedi'i ddatblygu'n dda ar hyn o bryd.

Mae llywodraethwyr yn ymgymryd â'u rôl yn effeithiol. Maent yn wybodus am ddatblygiadau yn yr ysgol. Mae gwaith y corff llywodraethol wedi'i drefnu'n dda ac yn bwrpasol. Mae llywodraethwyr wedi datblygu dealltwriaeth dda o'r data sydd ar gael i ysgolion, ac maent yn defnyddio hyn yn dda i herio'r ysgol i wneud yn well.

Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth briodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae'r ysgol yn rhoi gofynion y Cyfnod Sylfaen ar waith yn llawn. Mae blaenoriaethau yn y cynllun gwella ysgol yn canolbwyntio'n dda ar godi safonau disgyblion mewn medrau sylfaenol. Mae gwaith ar ddatblygu'r defnydd o'r iaith Gymraeg wedi cael effaith sylweddol ar safonau. Rhoddir pwyslais priodol ar ddatblygu ffyrdd iach o fyw ymhlith y disgyblion. Fodd bynnag, mae'r ymwybyddiaeth o'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion neu'i oblygiadau yn gyfyngedig iawn.

### **Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r ysgol wedi sefydlu gweithdrefnau mwy systematig ar gyfer hunanarfarnu yn ddiweddar. Wrth gasglu'r adroddiad hunanarfarnu presennol at ei gilydd, rhoddwyd ystyriaeth dda i safbwyntiau pob un o'r staff a'r llywodraethwyr. Mae disgyblion yn chwarae rôl weithredol mewn nodi meysydd i'w gwella trwy'r cyngor ysgol a'r eco gyngor. Dim ond trwy drafodaeth anffurfiol y cafwyd safbwyntiau rhieni.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn fanwl ac yn cynnwys dadansoddiad trylwyr o ddata perfformiad. Mae'r adroddiad yn cydnabod nifer sylweddol o gryfderau ym

mhob agwedd ar waith yr ysgol ac yn nodi rhai meysydd lle mae angen gwelliannau. Gwneir defnydd annigonol o fonitro'r addysgu a'r dysgu yn drylwyr i sicrhau bod pob maes i'w ddatblygu yn cael ei nodi.

Ni ddefnyddiwyd deilliannau hunanarfarnu i lywio blaenoriaethau yn y cynllun gwella ysgol presennol. Fodd bynnag, mae'r cynllun yn canolbwyntio'n briodol ar godi safonau mewn meysydd allweddol ac mae'n cynnwys camau a graddfeydd amser penodol. Caiff cynnydd wrth fynd i'r afael â'r targedau ar gyfer gwella ei fonitro, ac mae'r camau a gymerwyd wedi arwain at welliannau mesuradwy, trwy godi safonau mewn darllen, er enghraifft. Nid yw'r gwaith ar feysydd eraill i'w datblygu, yn cynnwys codi safonau mewn ysgrifennu, mathemateg a datblygu darpariaeth medrau, wedi cael effaith arwyddocaol eto.

Mae staff yn mynychu cyrsiau yn rheolaidd i ddiweddarau eu gwybodaeth a'u medrau. Caiff gwybodaeth o gyrsiau a fynychwyd ei rhannu gydag oedolion eraill yn yr ysgol, ac mewn rhai achosion, fe gaiff hyn effaith gadarnhaol ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion. Fodd bynnag, mae diffyg cysondeb wrth ddatblygu dulliau arloesol ar gyfer addysgu a dysgu ar draws yr ysgol yn cyfyngu effaith y mentrau hyn. Megis dechrau datblygu y mae gwaith gyda staff mewn ysgolion eraill.

Mae cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad diwethaf wedi bod yn rhy amrywiol.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol gysylltiadau effeithiol gydag ystod o bartneriaethau sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at wella deilliannau ar gyfer disgyblion. Mae'r bartneriaeth gyda rhieni yn dda. Mae rhieni'n teimlo eu bod yn cael croeso yn yr ysgol a'u bod yn cael eu hysbysu'n dda, yn enwedig trwy wefan yr ysgol. Mae'r wybodaeth sy'n cael ei hanfon adref gyda disgyblion yn galluogi rhieni i gefnogi dysgu eu plentyn yn dda. Mae disgyblion yn elwa ar gysylltiadau sefydledig yr ysgol gyda'r gymuned.

Ar y cyfan, mae'r ysgol yn ymateb yn dda i gyngor ac arweiniad gan yr awdurdod lleol, ac mae'n gweithredu yn unol â'r argymhellion a wneir. Mae'r camau a gymerir o ganlyniad i gysylltiad gyda'r awdurdod lleol wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion.

Mae cynlluniau pontio manwl a gweithgareddau ar y cyd yn cynorthwyo disgyblion i drosglwyddo'n ddiraffferth i'r ysgol uwchradd. Mae partneriaeth gyda'r ysgol uwchradd leol a'r clwstwr o ysgolion cynradd wedi cael ei defnyddio'n effeithiol i sicrhau cysondeb asesiadau athrawon yn y pynciau craidd. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn manteisio ar gyfleoedd i rannu adnoddau gydag ysgolion eraill.

### **Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan bob un o'r athrawon wybodaeth ac arbenigedd priodol i addysgu'r cwricwlwm. Mae trefniadau ar gyfer addysgu rhan-amser yn gwneud y defnydd gorau o arbenigedd a phrofiad pob athro. Mae trefniadau effeithiol ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu yn effeithiol. Mae gan lawer o staff rolau niferus yn yr ysgol ond caiff pob un ohonynt eu defnyddio'n dda, a defnyddir eu hamser yn effeithiol.

Defnyddir trefniadaeth dda i sicrhau bod yr adeiladau presennol yn cael eu defnyddio i'w llawn botensial. Mae cynllunio da ar waith i wneud iawn am y ffaith nad oes neuadd ysgol, ond mewn tywydd gwael, mae hyn weithiau'n effeithio ar y cyfleoedd i ddisgyblion hŷn gael gwersi rheolaidd mewn addysg gorfforol. Mae'r defnydd o adnoddau dysgu wedi'i drefnu'n dda i sicrhau'r budd gorau posibl i ddisgyblion.

At ei gilydd, caiff adnoddau ariannol eu rheoli'n dda a'u defnyddio'n effeithiol i fodloni blaenoriaethau yn y cynllun gwella ysgol. Mae'r pennaeth a phwyllgor cyllid y corff llywodraethol yn adolygu gwariant yn rheolaidd. Mae cyfrifoldebau ariannol wedi'u diffinio'n glir a'u cydbwysu'n dda. Er bod defnydd da yn cael ei wneud o gyllid, mae'r deilliannau ar gyfer disgyblion yn ddigonol ar y cyfan; felly, mae'r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

### Sylwadau ar ddata perfformiad

Mae angen gofal wrth ymateb i ddata perfformiad yr ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2. Gan fod y carfannau o ddisgyblion weithiau'n fach, mae'n anodd llunio barn ystyrion wedi'u seilio ar y canlyniadau. Amrywiodd nifer y disgyblion sy'n cael eu hasesu ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol rhwng pedwar a deuddeg.

### Cyfnod allweddol 1

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae cyrhaeddiad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yn y dangosydd pwnc craidd (DPC) wedi bod yn amrywiol. Mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 2) wedi bod islaw cyfartaledd y teulu o ysgolion am dair o'r pedair blynedd diwethaf. O gymharu â pherfformiad cymharol ysgolion y mae eu canrannau prydau ysgol am ddim yn debyg, roedd canlyniadau yn y 25% isaf ar gyfer y cyfnod hwn.

Mae cyrhaeddiad disgyblion mewn Saesneg wedi dilyn yr un patrwm â'r DPC ar y cyfan, ac eithrio ar gyfer 2011 pan oedd canlyniadau mewn Saesneg yn uwch. Ar gyfer llafaredd ac ysgrifennu, mae perfformiad wedi bod islaw cyfartaledd y teulu bron bob tro. Cododd canlyniadau mewn darllen i fod uwchlaw cyfartaledd y teulu yn 2011.

Ar lefel 2 ac yn uwch, mae canlyniadau mewn gwyddoniaeth wedi bod ychydig islaw'r perfformiad mewn Saesneg a mathemateg. Mae cyrhaeddiad disgyblion mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod islaw cyfartaledd y teulu am dair o'r pedair blynedd diwethaf.

Mewn Saesneg a mathemateg, ni chyflawnodd unrhyw ddisgyblion y lefel 3 uwch mewn dwy o'r pedair blynedd diwethaf. Ni chyflawnodd unrhyw ddisgybl lefel 3 mewn gwyddoniaeth yn 2011, ond rhwng 2008 a 2010, roedd canlyniadau mewn gwyddoniaeth ar y lefel uwch yn dangos tuedd ar i fyny.

### Cyfnod allweddol 2

Dros gyfnod, mae canlyniadau ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) wedi amrywio hefyd. Mae perfformiad disgyblion yn y DPC wedi bod ymhell uwchlaw cyfartaledd y teulu am dair o'r pedair blynedd diwethaf. Mae canlyniadau mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod islaw cyfartaledd y teulu am un o'r pedair blynedd yn unig, gyda chanlyniadau Saesneg yn gyson uwch. O gymharu â pherfformiad cymharol ysgolion y mae eu canrannau prydau ysgol am ddim yn debyg, roedd canlyniadau'n golygu bod yr ysgol yn y 25% isaf yn 2010 a'r 25% uchaf yn 2011.

Mae canlyniadau ar gyfer llafaredd a darllen ar lefel 4 wedi dilyn patrwm tebyg i ganlyniadau ar gyfer Saesneg, tra bod cyrhaeddiad disgyblion wedi codi'n gyson dros y tair blynedd diwethaf.

Er bod canlyniadau disgyblion ar y lefel 5 uwch mewn Saesneg wedi codi'n gyson rhwng 2008 a 2010, fe wnaethant ddisgyn yn 2011 ac maent wedi bod islaw cyfartaledd y teulu am y pedair blynedd diwethaf. Mewn mathemateg a gwyddoniaeth ar lefel 5, mae canlyniadau wedi codi yn y tair blynedd diwethaf, ac yn 2011, roeddent gryn dipyn yn uwch na chyfartaledd y teulu.

Nid oes patrwm clir o wahaniaeth mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched naill ai yng nghyfnod allweddol 1 na chyfnod allweddol 2.

## **Atodiad 2**

### **Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

#### **Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Llenwyd yr holiadur gan dri deg chwech o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2.

Dywed pob un o'r disgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn cytuno bod yr ysgol yn eu haddysgu i fod yn iach a bod llawer o gyfleoedd i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae pob disgybl yn gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Maent yn cytuno bod athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Maent yn credu bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith. Dywed bron pob disgybl bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo bod disgyblion yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio, ond mae rhai ohonynt yn credu bod ymddygiad disgyblion eraill yn amharu ar eu gwaith yn y dosbarth. Nid yw rhai disgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n dda â bwlio ac maent yn ansicr ynglŷn â phwy i siarad ag ef os ydynt yn poeni neu'n gofidio.

Mae ymatebion disgyblion i'r cwestiynau ynghylch pa mor dda y mae'r ysgol yn delio â bwlio a ph'un a yw disgyblion yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn poeni neu'n gofidio ychydig, yn llai cadarnhaol na safbwyntiau disgyblion mewn ysgolion eraill ledled Cymru.

#### **Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Llenwyd yr holiadur gan ddau ddeg pump o rieni.

Mae pob un o'r rhieni'n cytuno bod eu plentyn wedi cael cymorth i ymgynffwrddo'n dda pan ddechreuodd yr ysgol a bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol. Maent yn meddwl bod eu plentyn yn ddiogel yn yr ysgol ac yn teimlo bod disgyblion yn ymddwyn yn dda.

Mae bron pob un o'r rhieni'n credu bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da. Maent yn meddwl bod staff yn disgwyl i ddisgyblion weithio'n galed a gwneud eu gorau. Maent yn dweud bod staff yn trin pob disgybl yn deg a gyda pharch. Mae bron pob un o'r rhieni'n teimlo bod yr ysgol yn helpu disgyblion i ddod yn fwy aeddfed a chymryd cyfrifoldeb. Maent yn deall gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer delio â chwynion.

Mae'r rhan fwyaf o rieni'n fodlon â'r ysgol ac yn credu bod yr addysgu'n dda. Maent yn dweud bod yr ysgol yn darparu ystod dda o weithgareddau ar gyfer disgyblion ac yn eu hannog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf o rieni'n teimlo bod disgyblion yn cael cymorth priodol mewn perthynas â'u hanghenion unigol. Maent yn cytuno eu bod yn cael eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plentyn. Mae'r rhan fwyaf o rieni'n credu bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda ac yn datgan eu bod yn teimlo'n gyfforddus ynglŷn â mynd at yr ysgol gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem.

Mae llawer o rieni'n teimlo bod eu plentyn yn cael ei baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf. Maent yn cytuno bod gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn y mae eu plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.

At ei gilydd, mae rhieni yn Ysgol Gynradd Reoledig San Siôr ychydig yn llai cadarnhaol yn eu hymatebion am yr ysgol na rhieni mewn ysgolion eraill ledled Cymru.

### Atodiad 3

#### Y tîm arolygu

Jane Williams	Arolygydd Cofnodol
Lowri Haf Evans	Arolygydd Tîm
Susan Owen	Arolygydd Lleyg
Andrew Jones	Arolygydd Cymheiriaid
Eleri Tristram (Pennaeth Dros Dro)	Enwebai'r Ysgol

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk))

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol.

### Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALLau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	CSD	CSB1	CSB2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11



## Rhestr termau – Cynradd

### Cwricwlwm Cenedlaethol

#### Lefelau disgwylidig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

#### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

#### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.